Archwilio Cymru
Audit Wales

# Llamu Ymlaen – Rheoli Asedau'n Strategol – Cyngor Dinas Casnewydd

Blwyddyn archwilio: 2021-22

Dyddiad cyhoeddi: Mehefin 2022

Cyfeirnod y ddogfen: 3011A2022

Paratowyd y ddogfen hon ar gyfer defnydd mewnol Cyngor Dinas Casnewydd fel rhan o waith a wneir yn unol â helpu i gyflawni dyletswyddau’r Archwilydd Cyffredinol dan Adran 17 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 ac Adran 15 Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015. Gall hefyd oleuo astudiaeth ar gyfer gwella gwerth am arian dan adran 41 Deddf 2004.

Ni chymerir unrhyw gyfrifoldeb gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys

Mae’r Cyngor yn mynd ati’n dda i gynllunio a rheoli ei asedau’n strategol, ond mae angen iddo wneud yr egwyddor datblygu cynaliadwy’n ganolog i’w ystyriaethau, gan adeiladu ar brofiad y pandemig.

Adroddiad cryno

Crynodeb 4

Adroddiad manwl

Mae’r Cyngor yn mynd ati’n dda i gynllunio a rheoli ei asedau’n strategol, ond mae angen iddo wneud yr egwyddor datblygu cynaliadwy’n ganolog i’w ystyriaethau, gan adeiladu ar brofiad y pandemig 6

- Mae cynllun asedau strategol y Cyngor yn cynnwys nodau a rhesymeg eglur ac mae’n ategu ei gynllun corfforaethol ar y cyfan; fodd bynnag, mae’r cynnydd wedi arafu, sy’n ddealladwy, wrth iddo ddysgu o bandemig COVID-19 6
- Roedd y Cyngor mewn sefyllfa gymharol dda i ymateb i argyfwng COVID-19 gydag ystwythder chwim ac mewn partneriaeth gyda sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus; ac mae’n amcanu at gadw rhai o fanteision y ffyrdd newydd o weithio ar gyfer y dyfodol 7
- Mae strategaeth y Cyngor a’r modd y mae’n rheoli ei bortffolio eiddo a’i drefniadau presennol ar gyfer adeiladau sydd dros ben yn effeithiol, ond yn awr mae angen iddo wneud yr egwyddor datblygu cynaliadwy’n ganolog i’w ystyriaethau, gan adeiladu ar brofiad y pandemig 8
- Mae’r Cyngor yn cyflwyno rhai dangosyddion perfformiad i helpu i werthuso’i berfformiad ac mae’n derbyn y byddai’r data hwn yn cael ei wella trwy gymharu â sefydliadau eraill a dysgu oddi wrthynt 9

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

### Yr hyn y gwnaethom ei adolygu a pham

1 Fe wnaethom adolygu trefniadau'r Cyngor ar gyfer rheoli ei asedau. Fe wnaethom fwrw golwg ar y modd y mae'r Cyngor yn cynllunio'r defnydd o'i asedau'n strategol, sut y mae'n monitro'r defnydd o'i asedau a sut y mae'n adolygu ac yn gwerthuso effeithiolrwydd ei drefniadau.

2 Fe gyflawnom ni'r adolygiad hwn wrth i'r byd symud yn ei flaen, gan ddefnyddio'r profiadau o bandemig byd-eang COVID-19, i fwrw golwg ar y modd y mae cynghorau'n cryfhau eu gallu i drawsnewid, addasu a pharhau i ddarparu gwasanaethau, gan gynnwys y rhai a ddarperir mewn partneriaeth gyda rhanddeiliaid allweddol a chymunedau.

3 Pan ddechreuom ni ein gwaith archwilio dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 roeddem yn cydnabod y byddai'n cymryd amser i gyrff cyhoeddus wreiddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ond fe wnaethom hefyd nodi ein disgwyliad dros y tymor canolig y byddai cyrff cyhoeddus yn gallu dangos sut y mae'r Ddeddf yn trefnu'r hyn y maent yn ei wneud. Mae bellach bron yn saith mlynedd ers pasio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac rydym bellach yn yr ail gyfnod adrodd ar gyfer y Ddeddf. Felly, byddem yn disgwyl yn awr i gyrff cyhoeddus fod yn gallu dangos bod y Ddeddf yn rhan annatod o'u ffordd o feddwl a'i bod wir yn trefnu'r hyn y maent yn ei wneud.

4 Roedd tri phrif nod i'r prosiect hwn:

- cael sicrwydd bod cynghorau'n rhoi trefniadau ar waith i drawsnewid, addasu a pharhau i ddarparu gwasanaethau;
- egluro'r camau gweithredu y mae cynghorau'n eu cymryd yn unigol ac ar y cyd i gryfhau eu trefniadau yn ogystal â gwreiddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy ymhellach; ac
- ysbrydoli cynghorau a sefydliadau eraill i gryfhau eu trefniadau ymhellach trwy gofnodi a rhannu enghreifftiau o arfer a gwersi nodedig a gwneud argymhellion priodol.

5 Mae gan y Cyngor ystâd tir ac eiddo sylweddol sy'n cynnwys 170 o adeiladau megis y Ganolfan Ddinesig, Depo Telford, ysgolion ac ati o ran y sefyllfa ar ddiwedd mis Mawrth 2021, y mae ei llyfrwerth net ar y cyfan yn uwch na £342 miliwn.

6 Fe gynhaliom ni'r adolygiad yn ystod y cyfnod rhwng mis Tachwedd a mis Rhagfyr 2021, gan adolygu dogfennau allweddol y Cyngor a siarad gyda swyddogion ac aelodau etholedig y Cyngor.

## Yr hyn a ganfuom

7 Roedd ein hadolygiad yn ceisio ateb y cwestiwn: A yw dull strategol y Cyngor o reoli ei asedau'n rhoi cymorth effeithiol i'r Cyngor gryfhau ei allu i drawsnewid, addasu a pharhau i ddarparu ei wasanaethau yn y tymor byr a hwy?

8 Ar y cyfan canfuom fod y Cyngor yn mynd ati'n dda i gynllunio a rheoli ei asedau'n strategol, ond bod angen iddo wneud yr egwyddor datblygu cynaliadwy'n ganolog i'w ystyriaethau, gan adeiladu ar brofiad y pandemig

9 Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- mae cynllun asedau strategol y Cyngor yn cynnwys nodau a rhesymeg eglur ac mae'n ategu ei gynllun corfforaethol ar y cyfan; fodd bynnag, mae'r cynnydd wedi arafu, sy'n ddealladwy, wrth iddo ddysgu o bandemig COVID-19;
- roedd y Cyngor mewn sefyllfa gymharol dda i ymateb i argyfwng COVID-19 gydag ystwythder chwim ac mewn partneriaeth gyda sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus; ac mae'n amcanu at gadw rhai o fanteision y ffyrdd newydd o weithio ar gyfer y dyfodol; ac
- mae'r Cyngor yn cyflwyno rhai dangosyddion perfformiad i helpu i werthuso'i berfformiad ac mae'n derbyn y byddai'r data hwn yn cael ei wella trwy gymharu â sefydliadau eraill a dysgu oddi wrthynt.

## Argymhellion

**Arddangosyn 1: argymhellion**

Mae'r tabl isod yn nodi'r argymhellion yr ydym wedi'u hadnabod yn dilyn yr adolygiad hwn.

| Argymhellion |
|---|
| **Datblygu gwaith cynllunio tymor hwy sy'n ofynnol yn ôl yr Egwyddor Datblygu Cynaliadwy**<br>A1 Dylai'r Cyngor ddangos ystyriaethau tymor hwy ar gyfer cynllunio'i bortffolio eiddo'n strategol a phrosesau penderfynu cysylltiedig. |
| **Datblygu trefniadau gweithio mewn partneriaeth ymhellach**<br>A2 Ymgysylltu â phartneriaid yn y sector cyhoeddus ledled Gwent i wireddu'r manteision posibl sy'n codi o ddull strategol o reoli un ystâd gyhoeddus. |

# Adroddiad manwl

## Mae'r Cyngor yn mynd ati'n dda i gynllunio a rheoli ei asedau'n strategol, ond mae angen iddo wneud yr egwyddor datblygu cynaliadwy'n ganolog i'w ystyriaethau, gan adeiladu ar brofiad y pandemig

### Mae cynllun asedau strategol y Cyngor yn cynnwys nodau a rhesymeg eglur ac mae'n ategu ei gynllun corfforaethol ar y cyfan; fodd bynnag, mae'r cynnydd wedi arafu, sy'n ddealladwy, wrth iddo ddysgu o bandemig COVID-19

#### Pam ei bod yn bwysig pennu gweledigaeth glir

10 Mae strategaeth glir ar gyfer rheoli asedau a chynlluniau cyflawni wedi'u datblygu'n dda'n bwysig i adnabod y defnydd bwriadedig o asedau dros y tymor byr a hwy; y cyllid sydd ar gael i gynnal a datblygu asedau, yn ogystal â lefel ddisgwyliedig y galw am wasanaethau a chost eu darparu yn y dyfodol. Mae hefyd yn bwysig i adnabod sut y mae'r strategaeth rheoli asedau'n cyd-fynd ac wedi'i hintegreiddio â strategaethau perthnasol eraill, gan gynnwys gweithio ystwyth, y gweithlu, digidol a lleihau carbon. Gall dysgu o'r newidiadau a achoswyd gan bandemig byd-eang COVID-19 helpu cynghorau i gryfhau eu gallu i drawsnewid, addasu a pharhau i ddarparu gwasanaethau.

11 Wrth ddod i'r casgliad hwn canfuom fel a ganlyn:

- mae Cynllun Rheoli Asedau Strategol (CRhAS) presennol y Cyngor 2018-25 yn nodi nad oes angen ei holl bortffolio eiddo cyfredol arno, a hefyd bod 'y portffolio cyfredol yn fwy nag y gall y Cyngor fforddio'i gadw yn y tymor canolig a hir'.
- mae'r Cyngor wedi gwella'i ddealltwriaeth am ei ystadau ers pennu ei Gynllun Corfforaethol cyfredol ac yn awr mae ganddo fwriad clir ar gyfer defnyddio rhai asedau'n gorfforaethol a hefyd ar gyfer eu gwaredu. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn bwriadu parhau ag archwiliad o'i holl asedau adeiledig erbyn 2025 i gael dealltwriaeth lawn am eu heffaith carbon hirdymor gan amcanu at sicrhau defnydd strategol gwell.
- mae dysgu o brofiadau pandemig COVID-19, gwrando ar ei weithlu a cheisio lleihau effaith carbon mewn modd cost-effeithiol wedi peri i'r Cyngor ailfeddwl am ei bortffolio eiddo. Mae'r Cyngor yn parhau i ddatblygu sut y bydd yn defnyddio'i adeiladau, yn enwedig y Ganolfan Ddinesig, yn y dyfodol.

## Roedd y Cyngor mewn sefyllfa gymharol dda i ymateb i argyfwng COVID-19 gydag ystwythder chwim ac mewn partneriaeth gyda sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus; ac mae'n amcanu at gadw rhai o fanteision y ffyrdd newydd o weithio ar gyfer y dyfodol

12 Wrth ddod i'r casgliad hwn canfuom fel a ganlyn:

- fe ymatebodd y Cyngor yn gyflym i'r amgylchedd a oedd yn newid yn gyflym yn ystod pandemig byd-eang COVID-19. Pan gyflwynwyd y cyfyngiadau symud ym mis Mawrth 2020 daeth yn ofynnol i staff a arferai fod wedi'u lleoli mewn swyddfeydd newid i weithio gartref. Roedd y Cyngor mewn sefyllfa gymharol dda i ymateb i'r angen uniongyrchol i'w staff a oedd wedi'u lleoli mewn swyddfeydd weithio gartref. Roedd hyn i'w briodoli i raddau helaeth i'r ffaith bod darparu gliniaduron ar gyfer staff a buddsoddi mewn technolegau cwmwl wedi bod yn rhan o'r drefn arferol.
- er mwyn parhau i ddarparu gwasanaethau hollbwysig y Cyngor roedd gofyn i staff fod yn hyblyg o ran sut a ble yr oeddent yn gweithio, ac roedd yn ofynnol digideiddio gwasanaethau'n ddychmygus a llunio datrysiadau ymarferol i sicrhau bod gwasanaethau hollbwysig y Cyngor yn parhau gan hefyd gyfrannu at yr estyniad o ran darparu gwasanaethau iechyd ychwanegol. Mae'n ddealladwy bod hyn wedi golygu bod cynlluniau a threfniadau gweithredol wedi symud yn gyflymach a'u bod, mewn rhai meysydd, wedi datblygu y tu hwnt i gwmpas y Cynllun Rheoli Asedau Strategol presennol a strategaethau allweddol eraill y Cyngor.
- ym mis Tachwedd 2019, agorodd y Cyngor ei hyb partneriaeth yn Ringland sy'n darparu ystod o wasanaethau, gan gynnwys gwasanaethau iechyd, yr Heddlu a'r Trydydd Sector a'r Cyngor o un adeilad sydd wedi'i leoli'n bwrpasol i wasanaethu'r gymuned. Prosiect braenaru yw hwn i sefydlu model priodol ar gyfer y tri hwb sy'n weddill. Bydd y Cyngor yn adolygu model hyb Ringland ac yn datblygu cynigion ar gyfer y tri hyb sy'n weddill erbyn mis Mawrth 2023.
- mae'r Cyngor yn bwrw ymlaen â'i brosiect 'Normal Newydd' i leihau'r angen am swyddfeydd traddodiadol ymhellach trwy:
  – alluogi llawer o'i staff i barhau i weithio gartref am rywfaint o'r amser;
  – newid yr amgylchedd swyddfeydd i leoedd gweithio cydweithredol;
  – cyddwyso swyddfeydd darparu gwasanaethau'n llai o adeiladau; ac
  – integreiddio â blaenoriaethau strategol y Cyngor, yn enwedig i wella'i ystâd i gyflawni'r ymrwymiad carbon sero net erbyn 2030, a ysgogir yn rhannol gan Gynllun Newid Hinsawdd y Cyngor a'i Gynllun Ynni Ardal Leol.

## Mae strategaeth y Cyngor a'r modd y mae'n rheoli ei bortffolio eiddo a'i drefniadau presennol ar gyfer adeiladau sydd dros ben yn effeithiol, ond yn awr mae angen iddo wneud yr egwyddor datblygu cynaliadwy'n ganolog i'w ystyriaethau, gan adeiladu ar brofiad y pandemig

### Pam fod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn bwysig

13 Pan ddechreuom ni ein gwaith archwilio dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 roeddem yn cydnabod y byddai'n cymryd amser i gyrff cyhoeddus wreiddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ond fe wnaethom hefyd nodi ein disgwyliad dros y tymor canolig y byddai cyrff cyhoeddus yn gallu dangos sut y mae'r Ddeddf yn trefnu'r hyn y maent yn ei wneud. Mae bellach bron yn saith mlynedd ers pasio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac rydym bellach yn yr ail gyfnod adrodd ar gyfer y Ddeddf. Felly, byddem yn disgwyl yn awr i gyrff cyhoeddus fod yn gallu dangos bod y Ddeddf yn rhan annatod o'u ffordd o feddwl a'i bod wir yn trefnu'r hyn y maent yn ei wneud.

14 O dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y Ddeddf), rhaid i gynghorau weithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy. I wneud hyn, rhaid i'r Cyngor ystyried y pum ffordd o weithio: Hirdymor, Integreiddio, Cynnwys, Cydweithio ac Atal. Mae canllawiau statudol ynghylch y Ddeddf[1] yn nodi'r saith gweithgaredd sefydliadol craidd y mae'n hanfodol bod yr egwyddor datblygu cynaliadwy'n cael ei chymhwyso iddynt. Mae asedau'n un o'r gweithgareddau sefydliadol craidd hynny.

15 Wrth ddod i'n casgliad canfuom fel a ganlyn:

- mae Deddf LlCD yn ei wneud yn ofynnol i'r Cyngor ddangos ei fod wedi taro cydbwysedd rhwng gofynion y tymor byr ar y naill law a diogelu ei allu i ddiwallu anghenion yn y tymor hwy hefyd ar y llaw arall. Gall y Cyngor ddangos rhywfaint o feddwl yn y tymor canolig ar gyfer ei bortffolio eiddo. Er bod y Cyngor yn dal i gasglu rhagor o wybodaeth am ei ystâd eiddo mae'n derbyn y dylai hefyd ymgorffori tueddiadau tymor hwy yn eu cynlluniau.
- mae'r Cyngor yn rhestru ei ystâd eiddo fel risg fawr yn ei Gofrestr Risgiau Corfforaethol 2021/22 - Diweddariad Chwarter 2 (Tudalen 24), gyda cham gweithredu i 'ddatblygu strategaeth gytbwys ar gyfer dyfodol y Ganolfan Ddinesig', gan ddisgrifio'r cam gweithredu fel a ganlyn: 'mewn ymateb i gynaliadwyedd ariannol, amgylcheddol, cyfreithiol a phwysau cymdeithasol mae angen i ni ddatblygu strategaeth gytbwys ar gyfer gwarchod a thrawsnewid y Ganolfan Ddinesig yn y dyfodol'.

  Yn 2020, fe gytunodd sefydliadau'r sector cyhoeddus yng Ngwent i

[1] Llywodraeth Cymru, Rhannu Pwrpas: Rhannu Dyfodol 1 – Canllaw Craidd 2016

gydweithio gyda golwg ar adnabod dulliau strategol posibl o fynd ar drywydd Un Ystâd Gyhoeddus. Gall dull o'r fath nodi hyblygrwydd, cyfleoedd i gydweithio a llai o ddibyniaeth i geisio datrysiadau yn y farchnad breifat a allai ostwng costau o bosibl. Fodd bynnag, cyfyngwyd ar y cynnydd hyd yma gan ofynion gweithredol pandemig COVID-19.

- gall y Cyngor ddangos nifer o enghreifftiau lle mae'n cydweithio gyda phartneriaid eraill. Mae enghreifftiau o gydweithio diweddar yn cynnwys y gwasanaeth Profi, Olrhain, Diogelu a gweithio gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan i letya canolfannau brechu. Ond mae'r Cyngor yn dal i dderbyn bod cydweithio'n profi'n anodd i'w wreiddio'n rheolaidd.
- mae cynllun peilot y Cyngor ar gyfer hyb cymunedol yn Ringland a datblygiadau pellach arfaethedig yn enghraifft o achosion lle mae'r Cyngor yn mynd ati'n weithredol i leoli gwasanaethau amlasiantaeth mewn un adeilad sydd wedi'i leoli yn y gymuned. Dywedwyd wrthym fod yr hybiau wedi darparu gwasanaethau cymorth ac ataliol hollbwysig ar gyfer y trigolion mwyaf agored i niwed yn ystod y pandemig.

## Mae'r Cyngor yn cyflwyno rhai dangosyddion perfformiad i helpu i werthuso'i berfformiad ac mae'n derbyn y byddai'r data hwn yn cael ei wella trwy gymharu â sefydliadau eraill a dysgu oddi wrthynt

### Pam fod mynd ati'n effeithiol i adolygu'r modd y cyflawnwyd newidiadau arfaethedig i asedau'n bwysig

16 Dylai cynghorau ddefnyddio data i fonitro pa un a ydynt yn cyflawni eu deilliannau bwriadedig yn effeithiol ac yn effeithlon dros y tymor byr a hwy. Gall defnyddio data meincnodi ddarparu mewnwelediad defnyddiol i berfformiad unigol cynghorau a gall adnabod cyfleoedd i ddysgu oddi wrth sefydliadau eraill.

17 Wrth ddod i'r casgliad hwn canfuom fel a ganlyn:

- fel rhan o'n harchwiliad o asesiadau o berfformiad cynghorau ar gyfer blwyddyn ariannol 2020-21, fe wnaethom nodi bod llai o gyfeirio at wybodaeth gymharol am berfformiad, er ein bod yn cydnabod bod y pandemig wedi arwain at atal rhai prosesau casglu data cenedlaethol. Bydd y gallu i gymharu data a pherfformiad â sefydliadau eraill yn parhau i fod yn elfen bwysig o drefniadau i sicrhau gwerth am arian a bydd hyn yn her i gynghorau ei ystyried, yn enwedig wrth iddynt barhau i weithredu'r gofynion sy'n gysylltiedig â hunanasesu a nodir yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

- er enghraifft, yng Nghynlluniau Gwasanaethau'r Cyngor 2017-22[2], ceir set o Ddangosyddion Perfformiad gyda thargedau wedi'u gosod ar gyfer 2021-22 a data gwirioneddol ar gyfer y tair blynedd ddiwethaf. Er ein bod yn deall bod atal setiau data meincnodi cenedlaethol wedi ei gwneud yn anos cymharu, ni ddarparwyd unrhyw gymhariaeth allanol.
- mae Cynllun Rheoli Asedau Strategol y Cyngor 2018-25 yn cynnwys cam gweithredu, sydd heb ei gwblhau eto, i'w hybiau partneriaeth cymunedol sefydlu set o ddangosyddion perfformiad i sicrhau bod dull effeithiol a chyffredin yn cael ei fabwysiadu ar gyfer gwerthuso a monitro'r model hyb ac is-ganolfannau cymdogaeth. Yn ychwanegol at y set o ddangosyddion perfformiad ar gyfer y Sir gyfan, dylai'r Cyngor ystyried sut y bydd yn gallu pwyso a mesur effaith a gwerth cymdeithasol ardaloedd hyb unigol i oleuo gwelliant a chydnerthedd i brosesau penderfynu yn y dyfodol.
- gall y Cyngor ddarparu rhai enghreifftiau o adegau pan fo wedi dysgu oddi wrth sefydliadau eraill, megis pan ymwelodd y Cyngor â Hybiau Partneriaeth yng Nghaerdydd wrth ddatblygu'r cynllun peilot i letya hyb partneriaeth, a hefyd pan gysylltodd â Chyngor Sir Fynwy i gael budd o'i brofiad o weithredu cyfarfodydd a gwasanaethau democrataidd hybrid i alluogi'r Cyngor, yn ystod pandemig COVID-19, i ailsefydlu'r prosesau democrataidd ar-lein.

[2] Cyngor Dinas Casnewydd, Cynllun Gwasanaeth Blynyddol Adfywio, Buddsoddi a Thai 2017-22.

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.